Community Covenant

**PARTNERIAETH CYFAMOD CYMUNEDOL LLUOEDD ARFOG SIR DDINBYCH**

**Cyflwyniad**

Ar 2 Gorffennaf 2013, llofnododd un ar bymtheg o Bartneriaid ar draws Sir Ddinbych Gyfamod Cymunedol y Lluoedd Arfog (AFCC) ar gyfer Sir Ddinbych.

Mae Cyfamod Cymunedol y Lluoedd Arfog yn ddatganiad gwirfoddol o gydgefnogaeth rhwng cymuned sifil a’i Chymuned Lluoedd Arfog leol. Ei fwriad yw cyd-fynd â Chyfamod y Lluoedd Arfog, sy'n amlinellu'r rhwymedigaeth foesol rhwng y Genedl, y Llywodraeth Genedlaethol a'r Lluoedd Arfog, ar y lefel leol.

Diben y Cyfamod Cymunedol yw annog cefnogaeth ar gyfer Cymuned y Lluoedd Arfog sy'n byw ac yn gweithio’n Sir Ddinbych ac i gydnabod a chofio’r aberth a wnaed gan aelodau o’r gymuned hon o’r Lluoedd Arfog, yn enwedig y rhai sydd wedi cyfrannu fwyaf. Mae hyn yn cynnwys personél presennol a chyn-bersonél y Lluoedd Arfog, eu teuluoedd a gwragedd a gwŷr gweddw yn Sir Ddinbych.

I Gyngor Sir Ddinbych a sefydliadau partner, mae’r Cyfamod Cymunedol yn cynnig cyfle i ddod â'u gwybodaeth, eu profiad a'u harbenigedd ynghyd i ddarparu cymorth a chyngor i aelodau o gymuned y Lluoedd Arfog. Mae hefyd yn rhoi cyfle i adeiladu ar y gwaith da sydd eisoes yn bodoli gyda mentrau eraill.

I gymuned y Lluoedd Arfog, mae’r Cyfamod Cymunedol yn annog integreiddio bywyd Lluoedd Arfog ym mywyd sifil ac yn annog aelodau o gymuned y Lluoedd Arfog i helpu eu cymuned leol.


Mae'r adroddiad hwn yn tynnu sylw at weithgareddau Partneriaeth Cyfamod Cymunedol y Lluoedd Arfog ers i'r Cyfamod Cymunedol gael ei lofnodi ym mis Gorffennaf 2013.



**Beth sydd wedi digwydd?**

Mae gweithgor partneriaeth wedi'i sefydlu yn dilyn llofnodi'r Cyfamod.  Mae'r Bartneriaeth yn cael ei chadeirio gan Bencampwr Aelodau Cyngor Sir Ddinbych.  Mae'r Grŵp yn cyfarfod yn chwarterol ac wedi datblygu cynllun gweithredu.  Mae'n rhoi cyfle i rwydweithio, rhannu gwybodaeth, a chynorthwyo i ddatrys problemau drwy gyfeirio at yr asiantaethau priodol.   Er enghraifft, cafodd sefyllfa dai cyn-filwyr ei datrys pan weithiodd SSAFA a Gwasanaethau Tai Sir Ddinbych gyda'i gilydd yn dilyn cyfarfod y Gweithgor.

Drwy Gyngor Sir Ddinbych, mae tudalen wefan bwrpasol wedi'i sefydlu sy'n darparu gwybodaeth a manylion am y cymorth sydd ar gael, gyda dolenni cyswllt i'r Partneriaid.
https://www.denbighshire.gov.uk/cy/preswyliwr/cymunedau-a-byw/cefnogir-lluoedd-arfog.aspx)




Cynhaliodd y Bartneriaeth ymarfer mapio gyda'r nod o sefydlu anghenion y rhai yn y gwasanaethau arfog, cyn-filwyr a'u teuluoedd ac i benderfynu ar eu demograffig a ble maent yn byw yn Sir Ddinbych.  Roedd yn anodd cael gwybodaeth am gyn-aelodau o'r fyddin, oherwydd diogelu data ac efallai nad oedd y data a gasglwyd yn gynrychiolaeth gywir o gyn-filwyr, gan ei bod yn bosibl y gall y data fod wedi'i dyblygu; er enghraifft, gall yr adran tai fod â chofnodion am yr un person â'r CAB.

Cynhaliwyd Digwyddiad Gwybodaeth ym mis Hydref 2014 yn Neuadd y Dref, y Rhyl, er mwyn dangos y gefnogaeth a’r wybodaeth sydd ar gael i gyn-filwyr gan sefydliadau, personél sy'n gwasanaethu, a'u teuluoedd.



Mae Swyddogion Cyngor Sir Ddinbych yn darparu cymorth gyda datblygu a gweithredu Prosiect Ffosydd y Rhyfel Byd Cyntaf ar dir Castell Bodelwyddan. Nod y prosiect yw ail-greu system ffosydd Rhyfel Byd Cyntaf gynhwysfawr y gellir ei defnyddio fel atyniad ymarferol i ymwelwyr. Bydd y ffosydd yn cael eu defnyddio fel adnodd addysgol ymarferol i ysgolion ac fel profiad dysgu byw cofiadwy.

Erbyn hyn mae cydweithio helaeth gyda siroedd eraill drwy Fwrdd Arweinyddiaeth Rhanbarthol Gogledd Cymru. Mae'r bwrdd rhanbarthol hwn yn cynnwys cynrychiolwyr o holl awdurdodau lleol Gogledd Cymru, y Bwrdd Iechyd Lleol, Llywodraeth Cymru, Iechyd Cyhoeddus Cymru, Heddlu Gogledd Cymru, y Gwasanaeth Prawf, a’r holl sefydliadau lluoedd arfog allweddol. Ei gylch gorchwyl yw cydlynu gweithgareddau ar sail Gogledd Cymru.

**Datblygiadau yn y dyfodol**

Mae cais rhanbarthol am arian i Brifysgol wneud ymarfer mapio yng Ngogledd Cymru wedi’i gyflwyno.

Bydd Sir Ddinbych yn cynnal Diwrnod y Lluoedd Arfog 2016 yng Nghastell Bodelwyddan, sy'n ddigwyddiad cenedlaethol â thema filwrol i’r teulu cyfan. Mae Gweithgor wedi’i sefydlu i gydlynu'r digwyddiad sy'n cael ei gynnal ddydd Sadwrn, 18 Mehefin 2016.

